# Asesiad Effaith Gronnol (AEG) Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

## Cefndir

Mae ardal y Cyngor yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol a gwledig, ac mae ganddi boblogaeth o tua 139,178. (Data ffynhonnell: Gwefan ONS Tabl KSI01UK Cyfrifiad 2011).

Y prif drefi yw Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl. Mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr oddeutu 15,000 o bobl, sy’n byw o fewn dwy filltir i'r dref (ffynhonnell: Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr).

Mae rhai strydoedd yng nghanol y dref wedi eu neilltuo i gerddwyr. Ers cyflwyno Deddf Trwyddedu 2003 ym mis Tachwedd 2005, mae Heol Derwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham a Stryd Nolton wedi bod yn destun polisi arbennig i liniaru effaith gronnol negyddol adeiladau trwyddedig.

## Rhesymau am yr AEG

Mae effaith gronnol nifer fawr o safleoedd trwyddedig yn tanseilio amcanion trwyddedu sef:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Atal Niwsans Cyhoeddus
- Diogelwch y Cyhoedd
- Amddiffyn plant rhag niwed

## Tystiolaeth

Cyflwynwyd y brif dystiolaeth gan Heddlu De Cymru (HDC). Caiff yr Heddlu ei gydnabod gan y Swyddfa Gartref fel yr Awdurdod Cyfrifol arweiniol i'r awdurdod trwyddedu ar gyfer trosedd ac anhrefn. Mae adroddiad HDC yn nodi:

*“We have seen a 34% increase in crime demand and reporting across all categories of NTE crime/demand detailed within the report pre COVID.*

*Post COVID, figures are generally lower which is to be expected as we emerged from lockdown.*

*There is every likelihood that this legacy increase will resume and as such Police will support the continuance of the Cumulative Impact Area to ensure criminal conduct and disorderly conduct is minimised in Bridgend Town Centre.”*

Niferoedd y mangreoedd trwyddedig

Adolygiad bwrdd gwaith o strydoedd yn y pedair stryd ddynodedig sydd o fewn ardal yr AEG 2023 ar hyn o bryd. Ni fu gostyngiad yn nifer y safleoedd sydd ar agor ar ôl 0300 ar gyfer gwerthu alcohol. Mae pob trwydded mewn grym ers mis Mawrth 2023

| Stryd | Prif Weithgaredd | Gwerthu alcohol hyd yr awr olaf neu Luniaeth Hwyr y Nos (ddim o reidrwydd yn gweithredu drwy gydol dydd Llun i ddydd Sul gyda'r oriau hyn) |
|---|---|---|
| Stryd y Farchnad | Clwb Nos | 0300 |
| Stryd y Farchnad | Tŷ Bwyta | 0100 |
| Stryd y Farchnad | Clwb Nos | 0400 |
| Stryd y Farchnad | Siop Gyfleus | 1800 |
| Stryd y Farchnad | Caffi | 2230 |
| Stryd y Farchnad | Clwb Nos | 0400 |
| Stryd y Farchnad | Tafarn | 0100 |
| | | |
| Stryd Wyndham | Siop Goffi a Thŷ Bwyta | 2300 |
| Stryd Wyndham | Tŷ Bwyta | 0000 |
| Stryd Wyndham | Lluniaeth Hwyr y Nos | 0400 |
| Stryd Wyndham | Tŷ Bwyta | 0100 |
| Stryd Wyndham | Lluniaeth Hwyr y Nos | 0400 |
| Stryd Wyndham | Lluniaeth Hwyr y Nos | 0230 |
| Stryd Wyndham | Clwb Nos/Lluniaeth Hwyr y Nos | 0400/0430 |
| Stryd Wyndham | Tŷ Bwyta | 0200 |
| Stryd Wyndham | Lluniaeth Hwyr y Nos | 0230 |
| | | |
| Derwen Road | Clwb Nos | 0430 |
| Derwen Road | Lluniaeth Hwyr y Nos | 0300 |
| | | |
| Stryd Nolton* | Tŷ Bwyta | 0100 |
| Stryd Nolton* | Tŷ Bwyta | 0200 |
| Stryd Nolton* | Tafarn | 0100 |
| Stryd Nolton* | Lluniaeth Hwyr y Nos | 0300 |
| Stryd Nolton* | Tafarn | 0200 |
| Stryd Nolton* | Tŷ Bwyta | 2330 |
| Stryd Nolton* | Lluniaeth Hwyr y Nos | 0000 |
| Stryd Nolton* | Tafarn | 0100 |

*Nid yw'r AEG yn berthnasol i Stryd Nolton (o'i chyffordd â Heol Ewenni hyd at ei chyffordd â Heol Merthyr Mawr)

## Tystiolaeth arall a ystyriwyd

Roedd yr ymgynghoriad statudol hefyd yn cynnwys holiadur i fod o gymorth i ganfod testunau pryder ychwanegol yng nghanol y dref.

Dylid rhoi sylw i'r sampl bychan iawn o atebion, ac roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

O'r saith ymateb, roedd y rhai a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd i gyd o blaid y Cyngor yn cadw'r AEG. Roedd dau ymatebwr heb fod o blaid. Atebodd un fod yna:

> *"broblemau 10-15 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae nifer y mangreoedd trwyddedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhai sydd ar ôl, mewn llawer o achosion, yn ymdrechu i gadw'n hyfyw fel y mae trosiant uchel y dalwyr trwydded yn tystio".*

Roedd yr atebwyr yn dyfynnu ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddygiad treisgar, gollwng sbwriel a baeddu'r strydoedd/darpariaeth toiledau fel y brif broblem.

Roeddent yn cyfeirio at bob math o adeiladau fel rhai oedd yn cyfrannu i'r problemau, yn economi'r dydd a'r nos.

Yn yr adran sylwadau, soniwyd am ysmygu ac yfed y tu allan, yfed yn y stryd a buddsoddiad yng nghanol y dref.

## Mesurau eraill a ystyriwyd

- Cynllun Gwarchod Tafarndai
- Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 sy'n rhoi'r grym i'r Heddlu fynnu nad yw person yn yr ardal ddynodedig yn yfed alcohol neu ei fod yn ildio unrhyw alcohol neu gynwysyddion alcohol (ac eithrio cynwysyddion wedi'u selio) yn ei feddiant.
- Darparu teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus
- Pwerau gorfodi sydd ar gael i'r Heddlu, Swyddogion Trwyddedu a Swyddogion Safonau Masnach o dan Ddeddf Trwyddedu 2003
- Cyflwyno cynllun peilot marsialiaid tacsis

## Casgliad

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth i gefnogi mabwysiadu a chyhoeddi AEG yn y strydoedd a enwir yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl ystyried mentrau eraill sy'n bodoli eisoes, mae'n credu ei fod yn gymesur ac mai hwn yw'r mesur mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd. Fodd bynnag, ni ellir diystyru effaith Covid ar droseddu a digwyddiadau yn economi'r nos. Am y rheswm hwnnw, bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi hwn yn gynt na'r cyfnod o dair blynedd a argymhellir, i gyd-fynd ag adolygiad nesaf y Datganiad Polisi Trwyddedu sydd i fod i ddod erbyn diwedd 2024.

**Cymhwyso'r polisi**

Gan gadw mewn cof y Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymgynghori ar fater yr effaith gronnol yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae wedi ystyried barn Heddlu De Cymru ac ymatebwyr eraill ac wedi mabwysiadu AEG mewn perthynas â Heol Derwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham, a Stryd Nolton (o'i chyffordd â Heol Ewenni hyd ei chyffordd â Heol Merthyr Mawr, ond nid yr ardal rhwng Heol Merthyr Mawr a'r gyffordd â Court Road, Pen-y-bont ar Ogwr).

Rhoddir sylw hefyd, lle derbynnir sylwadau perthnasol ynghylch mangre sy'n ffinio neu'n agos at ardal yr AEG, a phan fo'r sylwadau hynny'n sôn am effaith sylweddol ar yr ardal, yna bydd yr AEG yn berthnasol, os bydd yr awdurdod trwyddedu'n barnu'n rhesymol y byddai caniatáu'r cais penodol yn anghyson â'i ddyletswydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Dylid darllen yr AEG hwn ar y cyd â Datganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2019-2024.

Mae'r AEG yn berthnasol i geisiadau am Drwyddedau Safle ac am amrywiad llawn ohonynt. Nid yw'n berthnasol i Dystysgrifau Safle Clwb na Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro.

Disgwylir i ymgeiswyr roi sylw i'r effeithiau cronnol o fewn yr Amserlen Weithredu. Disgwylir iddynt ddangos yn glir sut na fyddai rhedeg y safle yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol a brofir yn yr ardal.

Nid yw'r AEG yn absoliwt. Caiff amgylchiadau pob cais eu hystyried yn ôl eu teilyngdod a bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn caniatáu trwyddedau sy'n annhebygol o ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

**V2 a gymeradwywyd 21 Mehefin 2023**